

## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

### **RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

#### **Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg**

Bydd cyfarfod o **Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg** yn cael ei gynnal  
**Dydd Mercher, 10 Hydref 2018 am 10.00 am**  
**Siambwr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach,**  
**Tonypandy CF40 2XX**

**Dolen gyswllt:** Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol  
(01443 424062)

#### **MATERION I'W TRAFOD**

#### **1. CROESO A CHYFLWYNIADAU**

#### **2. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw.
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

#### **3. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a gynhaliwyd ar 14 Mai 2018.

**(Tudalennau 3 - 12)**

#### **4. GWASANAETHAU CYMRAEG - ARCHWILIADAU MEWNOL O GYDYMFFURFIAETH**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr, Iechyd y Cyhoedd, Diogelu a Gwasanaethau Cymuned sy'n rhoi gwybod i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion y Gymraeg am y broses y mae Gwasanaethau Cymraeg wedi'i mabwysiadu ar gyfer archwilio cydymffurfiaeth adrannau â Safonau'r Gymraeg, gan amlygu meysydd lle mae achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio a chynnig camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn.

**(Tudalennau 13 - 102)**

## 5. RHESTR O ENWAU LLEOEDD SAFONOL CYMRU

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr, Iechyd y Cyhoedd, Diogelu a Gwasanaethau Cymuned sy'n rhoi gwybodaeth i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg am y Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru a gafodd ei chyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2018, a chyfrifoldebau'r Cyngor mewn perthynas â hyn.

(Tudalennau 103 - 134)

## 6. BUSNES BRYD

Trafod unrhyw faterion eraill sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

## 7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodi dyddiad cyfarfod nesaf Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, sef **dydd Mercher 3 Ebrill am 10am.**

### CYLCHREDIAD:-

#### Y CYNGHORWYR:

Y Cyngorydd G Hopkins (Cadeirydd)  
Y Cyngorydd J Rosser (Is-gadeirydd)  
Y Cyngorydd R Bevan  
Y Cyngorydd M Webber  
Y Cyngorydd J James  
Y Cyngorydd E Stephens

#### SWYDDOGION:

Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant  
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r  
Gwasanaethau Llywodraethol  
Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned  
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

#### MENTER IAITH:

Einir Sion